

Sgiliau Iaith a Recriwtio

Rydych wedi cael llythyr newyddion yn ddiweddar gan y Cynghorydd Mair Stephens ynghylch Safonau'r Gymraeg, lle'r oedd hi'n amlinellu eu pwrpas sef rhoi hawl i bobl gael gwasanaeth gan y Cyngor yn eu dewis iaith. Hefyd mae'r Safonau'n berthnasol i weithlu'r Cyngor o ran sgiliau iaith, o ran cyfleoedd dysgu a datblygu ac o ran recriwtio. Cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Sgiliau Cymraeg ar 13eg Ionawr 2016. Bydd y strategaeth hon yn ategu gweithredu'r Safonau ac yn sicrhau bod y sgiliau a'r cyfleoedd datblygu cywir ar gael er mwyn darparu gwasanaethau cwsmeriaid o'r radd flaenaf. Dros yr wythnosau nesaf gofynnir i'n holl weithwyr ymateb i arolwg. Diben yr arolwg fydd darparu gwybodaeth am y sgiliau Cymraeg a Saesneg sydd ar gael ledled y Cyngor, ac fe'i defnyddir yn sail i drefnu cyfleoedd datblygu.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Fframwaith Sgiliau iaith sy'n pennu'r lefelau sgiliau y mae'n bosibl y gall gweithwyr eu harddel, ymgynraedd atynt neu a allai fod yn ofynnol ar gyfer swydd.

Datblygwyd canllawiau er mwyn helpu rheolwyr â'r ystyriaethau sgiliau iaith y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth adolygu swydd newydd neu swydd wag ar gyfer recriwtio, ac wrth gynllunio'r gweithlu.

Dros gyfnod bydd angen asesu pob swydd, ac yn achos pob swydd a hysbyseb ar ôl 1af Ebrill 2016 gofynnir am Lefel 1 neu lefel uwch yn unol â gofynion y swydd. Mae lefel 1 y fframwaith newydd yn cyfateb i gwrteisi sylfaenol o ran yr iaith, hynny yw bod yn gallu ynganu enwau pobl a lleoedd yn gywir. Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus fod yn gallu cyrraedd y lefel honno neu ymrwymo i gyrraedd y lefel honno drwy gael hyfforddiant ar ôl cychwyn yn y swydd.

Beth y mae angen imi ei wneud os wyf yn recriwtio staff?

- Adolygu'r disgrifiad swydd/manyleb person presennol neu lunio un newydd gan gyfeirio at y Fframwaith Sgiliau iaith a'r nodiadau cyfarwyddyd wrth gwblhau'r templed newydd.
Templed Proffil Swydd a Manyleb Person Gweler rhif 4
Nodiadau Cyfarwyddyd Proffil Swydd a Manyleb Person Gweler rhif 5
- Cwblhewch a chofnodi'r Asesiad Sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y swydd (mae hyn yn ofynnol gan y Safonau Gymraeg ac mae'n rhaid cadw copi fel rhan o'r broses recriwtio).
Asesiad Sgiliau iaith Gweler rhif 6
- Sicrhewch fod gennych ganiatâd i recriwtio (Adroddiad Swyddog Dirprwyedig/caniatâd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol/Cyfarwyddwr) a chyflwynwch y manylion angenrheidiol ar gyfer yr hysbyseb gan ddewis y testun perthnasol o ran sgiliau iaith.
Ffurflen Caniatâd i Recriwtio Gweler rhif 7
Ffurflen Gais Hysbysebu Swyddi Gwag Gweler rhif 8
- Gwnwech drefniadau i asesu'r sgiliau iaith yn ystod y broses ddewis. Bydd swyddogion Polisi Corfforaethol a Rheoli Pobl yn darparu rhagor o gyfarwyddyd ynghylch hyn.
- Gofynnwch am gyngor gan swyddog Rheoli Pobl os ydych yn cynnig swydd yn amodol a hynny ar sail bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn cytuno i gyrraedd y lefel iaith ofynnol o fewn cyfnod penodedig. Bydd angen cynnig y rhaglen briodol o ran dysgu a datblygu i'r unigolyn i'w helpu i gyrraedd y lefel ofynnol.

Gwybodaeth bellach:

Am y Gymraeg yn Sir Gâr, ewch i www.sirgar.llyw.cymru/trafodiaith

Am y Safonau, ewch at www.comisiynyddygymraeg.cymru/Pages/Croeso.aspx

I gysylltu â'r cyngor - iaithgymraeg@sirgar.gov.uk